

# GWASANAETH SEBIANT BYR SIR GAERFYRDDIN

## Gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau

A allech chi fod yn Ofalwr Seibiant Byr ar gyfer  
Plant a Phobl Ifanc ag Anableddau?



*Gwaith celf gan blant a phobl ifanc sy'n cael  
seibiannau byr yn Sir Gaerfyrddin*



### **Beth yw Gofalwr Seibiant Byr?**

Mae Gofalwyr Seibiant Byr yn cynnig gofal yn eu cartref i blentyn neu berson ifanc ag anableddau; gan rannu'r gofal a helpu'r teulu i aros gyda'i gilydd. Nod gofal Seibiant Byr yw ysgafnhau'r baich ar deuluoedd drwy gynnig profiadau newydd i'r bobl ifanc ag anabledd a chyfle iddynt wneud ffrindiau newydd a chreu perthnasoedd newydd, gan hyrwyddo eu hunan-barch ac annibyniaeth a rhoi ysbaid i'r teulu a chyfle iddynt dreulio amser gyda'u plant eraill, os yw hynny'n berthnasol.

### **Pa fath o unigolyn sy'n Ofalwr Seibiant Byr?**

Mae Gofalwyr Seibiant Byr yn dod o bob math o gefndiroedd ond yr un peth sy'n gyffredin iddynt i gyd yw bod plant a phobl ifanc ag anableddau yn bwysig iddynt. Mae arnom angen gofalwyr ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oed. Mae cynnig gofal seibiant byr yn gallu bod yn addas i bobl sy'n methu â chynnig gofal amser llawn.

### **Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn Ofalwr Seibiant Byr?**

Mae arnoch angen amser, amynedd, goddefgarwch ac egni. Mae'n rhaid ichi allu rhannu eich cartref a'ch bywyd gydag eraill ac mae angen ystafell sbâr arnoch.

### **Beth allai fy atal rhag bod yn Ofalwr Seibiant Byr?**

Ni chewch fod yn Ofalwr Seibiant Byr os oes gennych gofnod o droseddu yn erbyn plant. Nid yw collfarnau blaenorol yn golygu na chewch chi fod yn Ofalwr Seibiant Byr, ond mae'n rhaid inni ystyried a all hyn effeithio ar eich gallu i ddarparu gofal priodol.

### **Beth yw'r manteision?**

Nid mater o roi yn unig yw gofal seibiant byr; byddwch chithau ar eich ennill yn sgil y profiad. Byddwch yn gwneud gwahaniaeth i fywyd plentyn, yn gweld ei hyder a'i hunan-barch yn datblygu. Fel Gofalwr Seibiant Byr byddwch hefyd yn helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd trwy gynnig ysbaid i'r rhieni a'r brodyr neu chworydd a chyfle iddynt gael eu gwynt atynt.

### **A allaf fod yn Ofalwr Seibiant Byr?**

Rydym yn ystyried pob ymgeisydd. Os ydych yn sengl, yn ddi-waith, yn anabl, yn hoyw, yn lesbiad, yn 40 oed neu'n hŷn, heb fod yn berchen ar eich cartref eich hun.

### **Beth mae Gofal Seibiant Byr yn ei olygu?**

Mae Gofal Seibiant Byr yn golygu gweithio fel rhan o dîm o bobl i ofalu am blentyn neu berson ifanc ag anabledd. Nid yw'n waith y gallwch ei wneud ar eich pen eich hun. Mae'n effeithio ar eich teulu a'ch ffrindiau agos. Os oes gennych blant meddyliwch yn ofalus sut y byddant yn dygymod â'ch rhannu chi, eu cartref a'u heiddo. Os oes gennych bartner mae'n rhaid i'r ddau ohonoch fod eisiau cynnig Seibiannau Byr.

### **Cymorth Ariannol**

Mae Sir Gaerfyrddin yn croesawu ymgeiswyr gwaeth beth fo'u hamgylchiadau personol drwy gydnabod cydraddoldeb ac amrywiaeth.



**Os ydych yn barnu y gallech wneud gwahaniaeth ac os oes gennych ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ni drwy ffonio: 0800 0933699 neu drwy e-bostio [ShortBreaksServices@sirgar.gov.uk](mailto:ShortBreaksServices@sirgar.gov.uk) / [www.sirgar.gov.uk/fostering](http://www.sirgar.gov.uk/fostering)**

*Gwaith celf gan blant a phobl ifanc sy'n cael seibiannau byr yn Sir Gaerfyrddin*



### **Pa gymorth sydd ar gael i Ofalwyr Seibiant Byr?**

Cewch gefnogaeth trwy ymweliadau cyson a hyfforddiant. Bydd Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn yn ymweld â chi yn rheolaidd hefyd. Cewch fynd i gyfarfodydd grŵp cymorth a chael cymorth ychwanegol gan fentor sy'n gyfrifol am gefnogi gofalwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau.

### **Pa fath o seibiannau byr sydd ar gael?**

Mae Gofalwyr Seibiant Byr yn gofalu am wahanol blant a phobl ifanc ag anableddau rhwng 0 a 18 mlwydd oed am o leiaf 6 noson y mis. Mae'n bosibl y bydd ymweliad yn para noson neu ddwy noson yn olynol, yn dibynnu ar gynllun gofal y plentyn unigol.

Gellir cysylltu Gofalwyr Seibiant Byr â nifer fach o blant neu bobl ifanc. Mae Gofalwyr Seibiant Byr yn cynnig gofal i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu ac anghenion ychwanegol, unigolion ag ymddygiad mwy heriol neu rai ag anghenion meddygol a/neu gorfforol.

### **Yr Ymweliad Cyntaf â'r Cartref**

If you decide that you would like to be a Short break carer, or you would like more information, we will arrange to meet you at your home. We will also ask you questions about your background, skills and experience and your reasons for wanting to become a Short Break Carer.

### **Paratoi**

Yn dilyn ein hymweliad, byddwn ni'n penderfynu gyda'n gilydd a ydych chi'n barod i gyflwyno cais i fod yn ofalwr seibiant byr. Os ydych, byddwn yn eich gwahodd i hyfforddiant paratoi. Bydd y sesiynau hyn yn gyfle ichi ddysgu mwy am seibiannau byr yng nghwmni pobl eraill sy'n debyg i chi ac yn gobeithio bod yn ofalwyr seibiant byr. Dylai hyn roi digon o wybodaeth ichi i benderfynu a ydych am fwrw ymlaen â'ch cais.

**Os ydych yn barnu y gallech wneud gwahaniaeth ac os oes gennych ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ni drwy ffonio: 0800 0933699 neu drwy e-bostio [ShortBreaksServices@sirgar.gov.uk](mailto:ShortBreaksServices@sirgar.gov.uk) / [www.sirgar.gov.uk/fostering](http://www.sirgar.gov.uk/fostering)**

*Gwaith celf gan blant a phobl ifanc sy'n cael seibiannau byr yn Sir Gaerfyrddin*

### Adroddiad Asesu'r Cartref

Ar ôl ichi gael yr hyfforddiant paratoi bydd Gweithiwr Cymdeithasol yn ymweld yn gyson â chi a'ch teulu am gyfnod o dri neu bedwar mis i'ch helpu i baratoi ar gyfer darparu seibiannau byr ac i gwblhau adroddiad asesu. Bydd y cyfnod hwn yn gyfle ichi ystyried sut y bydd y seibiannau byr yn effeithio arnoch chi, eich teulu a'ch ffrindiau. Bydd gofyn i chi gael archwiliad meddygol gan eich meddyg teulu ac hefyd bydd angen o leiaf ddau eirda personol ac archwiliad iechyd a diogelwch o'ch cartref. Byddwn yn cynnal archwiliadau gyda'r heddlu ac ardaloedd eraill lle buoch yn byw. Hwyrach bod hyn yn ymddangos yn fygythiol, ond mae'n bwysig cofio mai ein cyfrifoldeb pennaf yw sicrhau bod y plant sydd yn ein gofal yn ddiogel. Yna bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn ysgrifennu adroddiad gan argymhell cymeradwyo neu beidio â chymeradwyo eich cais i fod yn Ofalwr Seibiant Byr. Bydd cyfle ichi ddarllen yr adroddiad a dweud a ydych yn cytuno ag ef neu beidio.

### Y Panel Seibiannau Byr

Cewch eich gwahodd i ddod gerbron panel sy'n cynnwys pobl sy'n arbenigo yn y maes. Byddant yn penderfynu a fyddwch yn cael eich derbyn yn ofalwr seibiant byr neu beidio ac yn pennu oed a niferoedd y plant a phobl ifanc y cewch ofalu amdanynt. Bydd y panel yn anfon y penderfyniad ysgrifenedig atoch.

### Iawn te, rwy'n Ofalwr Seibiant Byr cymeradwy. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y Tim Seibiannau Byr yn sicrhau eich bod yn cael gwybodaeth am y polisiâu a'r gweithdrefnau, addysg a phopeth sydd ei angen arnoch i'ch paratoi i fod yn ofalwr. Byddwn yn trefnu ichi ddechrau gofalu am blentyn trwy broses gyflwyno a chynllunio.

### A fyddaf yn cael hyfforddiant neu gymorth?

Ni fyddwch ar eich pen eich hun. Byddwch chi'n cael Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol i'ch tywys a'ch cefnogi. Mae pob Gofalwr Seibiant Byr yn cael hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau ganddynt i ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal. Cewch wahoddiad i wahanol ddigwyddiadau a sesiynau hyfforddiant i'ch paratoi â'r sgiliau angenrheidiol. Gallwch gadw mewn cysylltiad â Gofalwyr Seibiant Byr eraill trwy grwpiau cymorth rheolaidd. Mae gwasanaeth Aros Galwad 24 awr ar gael y tu allan i oriau'r swyddfa. Hefyd, cewch wahoddiad i ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn sy'n gyfle da i rwydweithio ac i gwrdd â phobl eraill.

### Beth sy'n digwydd yn awr?

Os oedd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac os hoffech gael eich ystyried i fod yn Ofalwr Seibiant Byr cewch gysylltu â ni i ofyn unrhyw gwestiynau trwy ffonio **0800 0933699** neu ebostio **ShortBreaksServices@sirgar.gov.uk**



**Os ydych yn barnu y gallech wneud gwahaniaeth ac os oes gennych ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ni drwy ffonio: 0800 0933699 neu drwy e-bostio ShortBreaksServices@sirgar.gov.uk / www.sirgar.gov.uk/fostering**